## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh a Busnes Lefel 1



**Yn gryno**

Bwriad ein cyrsiau Astudio Galwedigaethol yw eich cyflwyno i'r maes astudio y mae gennych ddiddordeb ynddo a'ch helpu i ddatblygu sgiliau dysgu ehangach.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... nad ydych yn siwr beth yr ydych eisiau ei wneud

... ydych eisiau mynd ymlaen i astudio cyrsiau ar y lefel nesaf, prentisiaeth neu waith

... ydych eisiau datblygu sgiliau trosglwyddadwy, ymarferol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Byddwch yn cael cyfle i roi cynnig ar fwy nag un maes galwedigaethol a chael cipolwg ar fywyd yn y coleg. Byddwch yn cwblhau tasgau sy'n canolbwyntio ar ddangos yr hyn y gallwch ei

wneud a'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu.

Mae'r unedau craidd yr un fath ar gyfer pob cwrs Astudio Galwedigaethol, a bydd hyn yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau o fewn y maes galwedigaethol yr ydych wedi'i ddewis. Os byddwch angen newid i gwrs gwahanol, pe bai angen gallwch drosglwyddo'r unedau yr ydych wedi'u hastudio ar y cwrs hwn i'r cwrs nesaf.

Dyma'r unedau craidd:

Bod yn drefnus
Datblygu cynllun cynnydd
Gweithio gydag eraill
Ymchwilio i bwnc

Gall yr unedau TGCh a Busnes gynnwys:

Datblygu gwybodaeth ddigidol trwy ddefnyddio TG
Defnyddio technolegau cyfathrebu digidol
Creu taenlen i ddatrys problemau
Creu gwefan
Trefnu cyfarfod
Brandio cynnyrch
Cyflwyno syniad busnes
Cyfrannu at gynnal digwyddiad
Cofnodi incwm a gwariant
Cyfathrebu gyda chwsmeriaid

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng aseiniadau, tasgau ac asesiadau ymarferol, a byddwch yn ennill:

Diploma BTEC Lefel 1 mewn Astudiaethau Galwedigaethol

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg (os nad ydych wedi ennill gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Ni cheir unrhyw ofynion ffurfiol. Fodd bynnag, mae diddordeb mewn dysgu am feysydd

galwedigaethol gwahanol yn angenrheidiol.

Bydd angen ichi fod yn llawn cymhelliant, yn ddiwyd a bod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd yn y meysydd galwedigaethol. Bydd disgwyl ichi ymarfer sgiliau a thechnegau mewn amgylcheddau gwaith realistig yn y coleg, gan eich galluogi i adeiladu ar eich sgiliau cyflogadwyedd. Mae mynychu'r holl sesiynau, ynghyd â bod yn brydlon ar gyfer pob un, yn gwbl angenrheidiol ar gyfer y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Gallech barhau â'ch astudiaethau hyd at Lefel 2 mewn maes galwedigaethol o'ch dewis
Gallech fynd yn eich blaen i ddilyn prentisiaeth
Gallech gael swydd yn eich dewis faes

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd disgwyl ichi brynu offer er mwyn sicrhau eich diogelwch wrth fynd i'r afael â'r elfennau ymarferol. Gallai costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn, ar gyfer ymweliadau addysgol.